# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-01-10 Papur 3: 19 Ionawr 2010

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor o'r blaen. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi dod i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'w papur hwn yn PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (i) P-03-100 Agorwch ein Cyffordd

### Geiriad y ddeiseb

Annwyl Mr Ieuan Wyn Jones - Rwyf i/Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn erfyn arnoch i ailfeddwl penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gadw 'Cyffordd Tesco' Aberteifi ar gau ac i'w hailagor gyda chynllun newydd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-100.htm

**Cynigiwyd gan:** Mark Cole

**Nifer y llofnodion:** 1450

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 31 Ionawr 2008, 22 Mai 2008, 22 Tachwedd 2008 a 24 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET (3) 01-10 Papur 3A.

### (ii) P-03-124 Cysgliad

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod fersiwn Windows o'r geiriadur/thesawrws Cysgliad ar gael i'w lwytho am ddim.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-124.htm

**Cynigiwyd gan:** Alun Evans

**Nifer y llofnodion:** 11

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 11 Mehefin 2008, 2 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008, 31 Mawrth 2009 a 19 Mai 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ganolfan Bedwyr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (iii) P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio a yw'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu angenrheidiol ar waith gan Fyrddau Iechyd Lleol er mwyn cyrraedd y targed o ran cyflawni â'r Safonau Canser Cenedlaethol erbyn mis Mawrth 2008 yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru, fel mater o frys.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-150.htm

**Cynigiwyd gan:** Rhondda Breast Friends

**Nifer y llofnodion:** Casglodd yr e-ddeiseb 43 o lofnodion. Yn ogystal â hyn, cyflwynodd Rhondda Breast Friends siarter yn ymwneud â gwella gwasanaethau gofal canser, a chasglodd y siarter hon 1,475 o lofnodion.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Gorffennaf 2008, 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 31 Mawrth 2009 a 24 Tachwedd 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (iv) P-03-153 Celf Corff

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfyngiadau ar yr oed y gall plentyn dan oed gael celf corff. Dylid cyfyngu'r oed ar gyfer celf corff, ar wahân i'r clustiau a'r trwyn, i 16 oed.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-153.htm

**Cynigiwyd gan:** Y Cynghorydd Russell Downe

**Nifer y llofnodion:** 14

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 10 Chwefror 2009, 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009 a 24 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (v) P-03-156 Dal Anadl wrth Gysgu

### Geiriad y ddeiseb

Y dylai Cymru gael polisi effeithiol, cydlynol ac sydd wedi'i gyllido'n dda ar gyfer pob claf sydd ag anhwylder cysgu. Byddai hyn yn cynnwys darparu peiriannau sy'n Pwyso'n Barhaus ac yn Gadarnhaol ar y Sianel Aer (CPAP) ar gyfer dioddefwyr sydd wedi cael diagnosis o Ddal Anadl wrth Gysgu Rhwystrol (OSA).

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-156.htm

**Cynigiwyd gan:** Welsh Sleep Apnoea Society

**Nifer y llofnodion:** 1 sefydliad

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 2 Mawrth 2009, 31 Mawrth 2009 a 24 Tachwedd 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (vi) P-03-162 Diogelwch ar y ffyrdd yn Llanspyddid

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffyrdd ym mhentref Llansbyddyd, ger Aberhonddu ym Mhowys, drwy weithredu mesurau i arafu'r traffig, fel gostwng y terfyn cyflymder presennol, gwella'r goleuadau ar ochr y ffordd a gwella'r arwyddion ar yr A40.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-162.htm

**Cynigiwyd gan:** Cymdeithas Trigolion Llansbyddyd

**Nifer y llofnodion:** 67

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 2 Mawrth 2009 a 24 Tachwedd 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (vii) P-03-181 Anaemia Dinistriol

### Geiriad y ddeiseb

**Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod nad yw'r diagnosis a'r driniaeth o Anemia Dinistriol yn ystyried anghenion unigol cleifion ac mae hyn yn aml yn cael effaith niweidiol ar brofiad y claf**

**o reoli'r cyflwr. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gorchymyn bod diagnosio, monitro a thrin Anemia Dinistriol yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn er mwyn diogelu urddas a hawliau dioddefwyr y clefyd**

**Linc i'r ddeiseb: h**

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-181.htm

**Cynigiwyd gan:** The Pernicious Anaemia Society

**Nifer y llofnodion:** 20

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009, 22 Medi 2009 a 10 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (viii) P-03-182 Cyllid Ewropeaidd

### Geiriad y ddeiseb

Drwy'r ddeiseb hon, rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol i lansio ymchwiliad i'r defnydd economaidd o arian Ewropeaidd a dderbyniwyd gan Gymru ers y flwyddyn 2000 ac i'r dulliau arfaethedig ar gyfer darparu'r cronfeydd Cydgyfeirio yn 2007-14. Rydym yn bryderus yn benodol ynghylch strategaethau sy'n gwrthdaro, megis gallu Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i weithredu fel barnwr a rheithgor, ac ar yr un pryd yn cystadlu â'r sector preifat am yr adnoddau prin hyn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-182.htm

**Cynigiwyd gan:** T Wyn Price

**Nifer y llofnodion:** 39 o gyfarwyddwyr busnes o orllewin Cymru

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009 a 22 Medi 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (ix) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i sut i ddarparu cymorth a gwybodaeth effeithiol i bobl yng Nghymru sy'n chwilio am waith, hyfforddiant neu sy'n ceisio cychwyn menter fusnes yn lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-207.htm

**Cynigiwyd gan:** Pwyllgor Materion Cymunedol Cyngor Tref Mynwy

**Nifer y llofnodion:** 286

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009, 23 Mehefin 2009, 7 Gorffennaf 2009, 22 Medi 2009, 10 Tachwedd 2009 ac 8 Rhagfyr 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (ix) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, Fforwm Pobl Hyn dros 50 oed Cwm Cynon, am gyflwyno deiseb yn galw am well triniaeth traed drwy'r GIG, yn enwedig i bobl hŷn sy'n gaeth i'w tai yn ardal Rhondda Cynon Taf: Llofnodwch ein deiseb

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-221.htm

**Cynigiwyd gan:** Fforwm Pobl Hŷn dros 50 oed Cwm Cynon

**Nifer y llofnodion:** 49

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin, 22 Medi 2009 a 24 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (x) P-03-227 Ffordd Fynediad yn Llanmaes

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, preswylwyr Llanmaes, Millands Park, a'r ardal wledig gyfagos yn gwrthwynebu:

Y ffordd fynediad ogleddol arfaethedig ar gyfer y Coleg Amddiffyn   Technegol arfaethedig

Yr ystâd dai arfaethedig - Fferm Tremains

Gwrthwynebwn yr uchod am y rhesymau a ganlyn:

1.Mae'n golygu dinistrio safle maes glas pan fo safleoedd tir llwyd ar gael

2.Bydd yn creu cryn lygredd swn, golau a llwch

3.Bydd yn achosi niwed ecolegol sylweddol

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-227.htm

**Cynigiwyd gan:** Cyngor Cymuned Llanmaes

**Nifer y llofnodion:** 416

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009 a 20 Hydref 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (xi) P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn / P-03-241 Achubwch ein Carthffosydd - Llanelli Star

### P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn

### Geiriad y ddeiseb

Deiseb gan drigolion Sir Gaerfyrddin yn gofyn am ymchwiliad cyhoeddus gan Lywodraeth cynulliad Cymru i'r llygredd carthffosiaeth ym Mornant Porth Tywyn a Bae Caerfyrddin.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-238.htm

**Cynigiwyd gan:** Rhys Williams

**Nifer y llofnodion:** 2240

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009 a 10 Tachwedd 2009

**P-03-241 Achubwch ein Carthffosydd - Llanelli Star**

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni'n cefnogi ymgyrch y Llanelli Star i wella ein carthffosydd, yn paratoi'r ffordd i gannoedd o swyddi ddod i'r ardal ac yn atal carthffosiaeth rhag cael ei gollwng a rhag dinistrio ein hamgylchedd.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-241.htm

**Cynigiwyd gan:** Llanelli Star

**Nifer y llofnodion:** 425

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009 a 10 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (xii) P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o'r strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i dynnu nôl yn ffurfiol o'r strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer/Gogledd-ddwyrain Cymru. Rydym ni, yr isod, yn dadlau fod strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer/Gogledd-ddwyrain Cymru yn gynllun di-feddwl, hynod niweidiol a thywyllodrus. Mae'r oblygiadau'n enfawr, gan effeithio ar nifer fawr o agweddau o fywyd yng Ngogledd Cymru. • Hunaniaeth a hawliau dynol (yn nhermau identiti Cymreig, iaith, diwyllaint, cymeriad a mynegiant) • Amgylcheddol (yn nhermau cynaladwyedd, ecoleg, yr amgylchedd a'r amgylchedd adeiladol) a • Cynaladwyedd cymdeithasol (yn nhermau demograffeg, economeg, gwleidyddiaeth a chymunedau).

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-243.htm

**Cynigiwyd gan:** Cyngor Pobl Gogledd Cymru

**Nifer y llofnodion:** 15220

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 8 Rhagfyr 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Fusnes a Chyllideb ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (xiii) P-03-244 Cofrestr prosiectau bro a phrosiectau cymuned ar gyfer awdurdodau lleol

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyhoeddi cofrestr o brosiectau bro a phrosiectau cymuned, a gofynnwn nad yw prosiectau'n cael eu dal na'u gohirio pan fyddant ar y gofrestr oni bai fod hyn yn anorfod. Dylai'r gofrestr roi manylion y blaenoriaethau a'r amserlen ar gyfer cwblhau pob un o'r prosiectau hyn, gan roi i ddinasyddion wybodaeth glir ac agored am flaenoriaethau eu hawdurdodau lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-244.htm

**Cynigiwyd gan:** Vivienne Hadley

**Nifer y llofnodion:** 124

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 24 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Dirprwy Brif Weinidog, ac mae'r rhain wedi'u hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (xiv) P-03-246 Cael gwared ar y terfyn cyflymder o 50mya ar yr M4 ger Casnewydd

### Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r angen am derfyn cyflymder o 50mya rhwng Cyffyrdd 24 a 28 ar yr M4. Hoffem i Lywodraeth Cymru gyflwyno tystiolaeth ynglyn â'r angen am y terfyn cyflymder hwn, ac i gyflwyno manylion ynglyn â'r effaith a gaiff y gostyngiad hwn mewn cyflymder, a'r cynnydd o ganlyniad i hynny yn yr amseroedd teithio rhwng de Cymru a Lloegr, ar fewnfuddsoddi a thwristiaeth.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-246.htm

**Cynigiwyd gan:** Arfon Hughes

**Nifer y llofnodion:** 53

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 24 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (xv) P-03-254 Sylwadau trydydd parti mewn cyfarfodydd cynllunio

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno hawliau i drydydd parti lefaru mewn cyfarfodydd Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy Gymru

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-254.htm

**Cynigiwyd gan:** Y Cynghorydd Nic Hodges

**Nifer y llofnodion:** 94

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 24 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 3A.

### (xvi) P-03-262 Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd ac i edrych pa mor ymarferol fyddai i Gymru gael Sefydliad Heddwch i edrych ar heddwch a hawliau dynol, tebyg i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau gwladwriaethau yn Fflandrys, Catalonia a mannau eraill yn Ewrop.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-262.htm

**Cynigiwyd gan:** Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol**,** Cymdeithas y Cymod, Cynefin y Werin a CND Cymru

**Nifer y llofnodion:** 1525

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 10 Tachwedd 2009 a 8 Rhagfyr 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

### Ionawr 2010